



Fleetbank House  
1<sup>st</sup> Floor, 2-6 Salisbury Square  
Llundain  
EC4Y 8AE

2 Gorffennaf 2018

## Ymchwiliad i Waed Heintus

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad i Waed Heintus bellach yn barod. Efallai eich bod yn meddwl tybed beth fydd camau nesaf yr Ymchwiliad. Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn i roi gwybod i chi.

Rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cylch gorchwyl. Derbyniais gannoedd o ymatebion: roedd hyn yn werthfawr iawn. Mae Gweinidog Swyddfa'r Cabinet bellach wedi nodi'r cylch gorchwyl mewn datganiad i'r Senedd, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005.

Rwyf o'r farn y bydd y cylch gorchwyl yn golygu y bydd ymchwiliad trwyadl ac eang yn cael ei gynnal i'r prif bryderon a nodwyd yn ystod y broses ymgynghori. Rwyf wedi atodi copi o'r cylch gorchwyl, ac mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan yr Ymchwiliad [www.infectedbloodinquiry.org.uk](http://www.infectedbloodinquiry.org.uk). Os byddai'n fwy cyfleus i chi gael copi papur, ffoniwch y rhif rhadffôn 0808 169 1377.

Cam nesaf gwaith yr Ymchwiliad fydd **casglu tystiolaeth**. Bydd yr Ymchwiliad yn gofyn i'r Llywodraeth, i'r GIG ac i nifer o sefydliadau eraill sydd â dogfennau perthnasol i'w datgelu i'r Ymchwiliad. Mae gennym bŵer dan y Ddeddf Ymchwiliadau, i orfodi'r broses o ddatgelu dogfennau o'r fath.

## Ymchwiliad i Waed Heintus

Fleetbank House, 1st Floor, 2-6 Salisbury Square, Llundain EC4Y 8AE  
contact@infectedbloodinquiry.org.uk  
Rhadffôn 08081691377

Mae profiadau'r rhai hynny ohonoch sydd wedi cael eich heintio ac y mae hyn wedi effeithio arnoch yn rhan bwysig iawn o'r dystiolaeth ar gyfer yr Ymchwiliad. Ni ddylech deimlo bod yn rhaid i chi rannu eich profiad, ond rwy'n rhagweld y bydd nifer ohonoch yn dymuno gwneud hynny. Rwyf wedi atodi ffurflen y gallwch ei defnyddio i gofrestru eich diddordeb. Os oes angen help arnoch chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, i lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â'r Ymchwiliad yn [contact@infectedbloodinquiry.org.uk](mailto:contact@infectedbloodinquiry.org.uk) neu ffoniwch y rhif rhadffôn 0808 169 1377 a bydd aelod o dîm yr Ymchwiliad yn hapus iawn i helpu.

Bydd llawer iawn, iawn o dystiolaeth. Bydd yn cymryd amser i'w chasglu, a hyd yn oed mwy o amser i'w hadolygu. Ond dylech wybod ei bod yn bwysig cymryd amser nawr, wrth gasglu'r dystiolaeth a'i hadolygu, cyn i'r gwrandawiadau llafar cyhoeddus ddechrau. Bydd yr amser y byddwn yn ei dreulio nawr yn arbed amser yn nes ymlaen. Bydd y gofal y byddwn yn ei gymryd yn ystod y cam hwn o'r broses yn helpu i sicrhau'r ymchwiliad cyflymaf, sy'n gyson â phroses drylwyr iawn.

Bydd yr Ymchwiliad yn ystyried pwy fydd y **prif gyfranogwyr** yn gynnar iawn yn y broses. Bydd y prif gyfranogwyr yn gallu gweld tystiolaeth sy'n berthnasol i fwy na dim ond eu hachos eu hunain. Gallant hefyd awgrymu llwybrau ymchwilio neu gwestiynau y maent yn credu y dylai'r Ymchwiliad eu dilyn a chyflwyno datganiadau agoriadol neu ddatganiadau cloi ar eu cyfer. Mae'n bwysig pwysleisio nad oes yn rhaid i unigolion sydd â thystiolaeth berthnasol i'w rhoi fod yn brif gyfranogwyr, oherwydd gall unigolyn roi tystiolaeth i'r Ymchwiliad heb ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn brif gyfranogwr. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ymchwiliad.

Pan fyddwn yn dechrau cynnal y **gwrandawiadau cyhoeddus**, byddaf yn dymuno clywed gan bobl sydd wedi cael eu heintio ac y mae hyn wedi effeithio arnyn nhw yn gyntaf, oherwydd bydd yn rhaid i'w profiadau nhw ffurfio sail yr Ymchwiliad cyfan. Byddwn yn ystyried strwythur y

### **Ymchwiliad i Waed Heintus**

Fleetbank House, 1st Floor, 2-6 Salisbury Square, Llundain EC4Y 8AE

[contact@infectedbloodinquiry.org.uk](mailto:contact@infectedbloodinquiry.org.uk)

Rhadffôn 08081691377

gwrandawiadau cyhoeddus a pha dystion ddylai roi tystiolaeth lafar ar y cyd â'r prif gyfranogwyr, pan fydd y broses o gasglu tystiolaeth wedi dechrau. Cynhelir rhai o'r gwrandawiadau yng Nghymru, Gogledd Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddod i wrandawriad.

Rwy'n siŵr eich bod yn cydnabod na fydd yn ymarferol ystyried yn fanwl achos pob unigolyn a gafodd ei heintio neu y mae hyn wedi effeithio arno. Byddai gwneud hyn yn golygu y byddai'r Ymchwiliad yn para am flynyddoedd, a byddai'n rhaid datgelu llawer iawn o wybodaeth feddygol sensitif. Ni fydd angen dadansoddi achosion unigol mewn modd mor gynhwysfawr er mwyn cyflawni'r cylch gorchwyl a darparu atebion y mae eu gwir angen.

Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dymuno gwybod sut byddai'r Ymchwiliad yn defnyddio'r **arbenigedd** sydd ei angen arno ac a fyddai aelodau eraill yn cael eu penodi ar y panel. Mynegwyd safbwyntiau o blaid ac yn erbyn penodi aelodau ychwanegol. Felly, efallai y byddai'n ddefnyddiol nodi beth yw safbwynt yr Ymchwiliad. Roedd dwy thema amlwg yn deillio o'r ymgynghoriad: yn gyntaf, roedd nifer yn credu ei bod yn bwysig y dylai'r Ymchwiliad lunio adroddiad yn gyflym. Yn ail, roedd amheuaeth gref fod y Llywodraeth, swyddogion, sefydliadau cyhoeddus a'r proffesiwn meddygol wedi ceisio cuddio'r hyn sydd wedi digwydd, wedi peidio â rhannu gwybodaeth am heintiau sy'n gallu peryglu bywyd yn fwriadol, ac wedi methu â chefnogi'r bobl yr oedd hyn wedi effeithio arnyn nhw, a'u teuluoedd.

Felly, mae amseru, bod yn dryloyw a bod yn agored yn bwysig. Ni fyddai dewis nifer bach o arbenigwyr sydd â'u safbwyntiau penodol eu hunain i fod ar y panel yn rhoi chwarae teg i gymhlethdod yr Ymchwiliad hwn. Byddent yn cyfrannu'n breifat ac ni fyddai eu cyfraniad yn cael ei herio gan gyfranogwyr, na chan arbenigwyr eraill sydd â barn wahanol ychwaith. Mae'n rhaid i banel Ymchwiliad glywed yr holl dystiolaeth gyda'i gilydd er mwyn cyfiawnder naturiol – nid oes modd i reithgor fod mewn dwy ran, gyda'r naill un neu'r llall yn clywed hanner y dystiolaeth yn unig - felly ni fyddai cael aelodau ar y panel

### **Ymchwiliad i Waed Heintus**

Fleetbank House, 1st Floor, 2-6 Salisbury Square, Llundain EC4Y 8AE

[contact@infectedbloodinquiry.org.uk](mailto:contact@infectedbloodinquiry.org.uk)

Rhadffôn 08081691377

yn caniatáu i waith yr Ymchwiliad fynd rhagddo yn gyfochrog. Yn wir, yn ôl profiad, mae cael aelodau panel yn ymestyn hyd ymchwiliadau.

Mae ateb gwell na phenodi aelodau panel ar gyfer yr ymchwiliad arbennig o gymhleth hwn ar gael i ni. Er mwyn helpu i ganfod y gwirionedd am yr hyn sydd wedi digwydd yn y ffordd fwyaf tryloyw bosibl, byddaf yn penodi grwpiau o arbenigwyr ar gyfer yr holl feysydd perthnasol, gan gynnwys meysydd moesegol, clinigol, seicogymdeithasol, ystadegol a gweinyddiaeth gyhoeddus. Eich profiadau chi fydd yn sail ar gyfer y cwestiynau y bydd y grwpiau o arbenigwyr yn eu hystyried. Bydd eu hadroddiadau, fel tystiolaeth, yn gwbl agored, yn hygyrch ac yn dryloyw. Pan fydd yr arbenigwyr yn anghytuno ynghylch rhywbeth, bydd y materion hyn yn cael eu profi, eu hystyried yn fanwl a'u herio'n agored yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y bydd pawb yn gallu gweld beth mae'r arbenigwyr wedi'i gyfrannu i mi. Gallwch enwebu arbenigwyr i mi eu hystyried os ydych yn dymuno hynny, a chynnig cwestiynau i'w holi i'r grwpiau o arbenigwyr drwy gyfrwng tîm yr Ymchwiliad.

Rwy'n gwybod y bydd nifer ohonoch yn awyddus i wybod faint o amser fydd yr Ymchwiliad yn ei gymryd i gwblhau ei waith. Mae rhai o'r bobl sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad, fel y gallem ei ddisgwyl, wedi pwysu am i'r Ymchwiliad gwblhau ei waith cyn gynted â phosibl. Mae eraill, yr un mor ddealladwy, yn dymuno i'r Ymchwiliad hwn fod mor drwyadl â phosibl. Rwy'n cydnabod bod angen taro cydbwysedd priodol rhwng yr awydd i gwblhau'r gwaith yn gyflym a'r angen i fod yn drwyadl. Ar hyn o bryd, ni allaf roi syniad penodol ynghylch yr amserlenni tebygol, ond, bydd gwaith yr Ymchwiliad yn cael ei wneud yn gyflym **ac** yn drwyadl.

Byddwch yn gallu dilyn hynt yr Ymchwiliad, gan gynnwys y broses o gasglu tystiolaeth, gwaith y grwpiau o arbenigwyr a'r gwrandawiadau cyhoeddus oherwydd bydd fy nhîm yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Ymchwiliad mewn amrywiol ffurfiau yn rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys

### **Ymchwiliad i Waed Heintus**

Fleetbank House, 1st Floor, 2-6 Salisbury Square, Llundain EC4Y 8AE

[contact@infectedbloodinquiry.org.uk](mailto:contact@infectedbloodinquiry.org.uk)

Rhadffôn 08081691377

cyfarfodydd rheolaidd ledled y DU lle byddwch yn gallu clywed am yr hyn y mae'r Ymchwiliad yn gweithio arno a siarad yn uniongyrchol â thîm yr Ymchwiliad. Gallwch hefyd gysylltu â thîm yr Ymchwiliad yn [contact@infectedbloodinquiry.org.uk](mailto:contact@infectedbloodinquiry.org.uk), rhadffôn 0808 169 1377 ac yn y cyfeiriad isod.

Yn gywir,

Syr Brian Langstaff

**Ymchwiliad i Waed Heintus**

Fleetbank House, 1st Floor, 2-6 Salisbury Square, Llundain EC4Y 8AE

[contact@infectedbloodinquiry.org.uk](mailto:contact@infectedbloodinquiry.org.uk)

Rhadffôn 08081691377